Y Gwasanaeth Atgyfeirio Gwahardd

Mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn gyfrifol am reoli'r rhestrau o bobl sy'n cael eu gwahardd rhag gweithgareddau rheoledig yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.
Mae gan sefydliadau sy'n cyflogi unigolion neu sydd â gwirfoddolwyr sy'n cyflawni gweithgareddau rheoledig gyda phlant neu oedolion ddyletswydd gyfreithiol i atgyfeirio at DBS os bodlonir amodau penodol.
Mae gan gyflenwyr personél sy'n darparu unigolion i sefydliadau i gyflawni gweithgaredd rheoledig ddyletswydd gyfreithiol i atgyfeirio hefyd.
Gellir dod o hyd i ganllawiau am weithgarwch rheoledig yn Canllawiau cymhwysedd ar gyfer gwiriadau DBS manylach a thaflenni canllawiau DBS

Cyn gwneud atgyfeiriad, dylai sefydliad sefydlu a yw'r amodau canlynol wedi'u bodloni: 1) Mae'r unigolyn wedi'i dynnu oddi wrth weithgaredd rheoledig. Gall hyn gynnwys diswyddo, ail-leoli, ymddeoliad, dileu swydd, neu ymddiswyddo.
2) Mae'r sefydliad yn credu bod yr unigolyn wedi cymryd rhan mewn ymddygiad perthnasol neu'n bodloni'r prawf niwed.
Gellir dod o hyd i ganllawiau pellach ar ymddygiad a niwed perthnasol yn Gwneud atgyfeiriadau gwahardd i'r DBS

Y gwasanaeth atgyfeirio gwahardd

Gallwch gyflwyno atgyfeiriad gan ddefnyddio'r gwasanaeth atgyfeirio gwahardd ar-lein . Fel rhan o'r atgyfeiriad, rhaid i chi ddarparu'r holl ddogfennau ategol perthnasol.

Rhai pwyntiau pwysig i fod yn ymwybodol ohonynt

- Bydd canllawiau ar bob tudalen i'ch tywys drwy'r atgyfeiriad – mae'n bwysig eich bod yn darllen hwn i'ch cynorthwyo yn y broses.
- Trefnwch fod eich holl ddogfennaeth wrth law cyn dechrau'r atgyfeiriad.
- Gall cyflwyno atgyfeiriad gymryd tua 45 munud. Rydym wedi diweddaru'r gwasanaeth i gynnwys swyddogaeth 'cadw a dychwelyd' – sy'n golygu y gallwch chi ddechrau ar eich atgyfeiriad, cadw eich cynnydd, a dychwelyd ato yn ddiweddarach os oes angen. Gallwch gadw'ch atgyfeiriad ar unrhyw adeg a dychwelyd ato, ac eithrio ar y cam lle rydych chi'n lanlwytho'ch dogfennau.
- Bydd cyfres o gwestiynau yn cael eu cyflwyno drwy gydol y broses – bydd y cwestiynau a ofynnir yn dibynnu ar y math o atgyfeiriwr rydych chi.
- Gallwch lanlwytho eich dogfennau ategol fel rhan o'r broses atgyfeirio – mae hyn hyd at 35 ffeil fesul atgyfeiriad.
- Mae'r gwasanaeth hwn ar gael o ddydd Llun i ddydd Sul, 8am i 11:30pm.
- Ar ôl i'r atgyfeiriad gael ei gyflwyno, gallwch lawrlwytho neu argraffu copi ar gyfer eich cofnodion.

Gellir cyrchu'r gwasanaeth drwy - Gov.uk - a theipio Gwasanaeth Atgyfeirio Gwahardd - bydd y ddolen hon yn mynd â chi i'r dudalen sy'n rhoi canllawiau i chi, ac ar ddiwedd y canllawiau byddwch yn gweld - cliciwch y botwm Start now hwn i ddechrau eich atgyfeiriad.

Fe welwch ar y sgrin mai'r cwestiwn cyntaf ar y ffurflen fydd - Pa fath o atgyfeiriwr ydych chi? Mae hwn yn gam cyntaf pwysig, gwnewch yn siŵr eich bod yn darllen y canllawiau a dewiswch yr opsiwn cywir oherwydd ar ôl ei ddewis ni ellir newid hyn. Mae'n creu'r llwybr cam wrth gam ar gyfer cwblhau'r atgyfeiriad, ac yn sicrhau bod y wybodaeth briodol yn cael ei derbyn gan DBS i gefnogi'r broses penderfynu gwahardd.

Ar ôl i chi ddewis pa fath o atgyfeiriwr ydych chi – bydd y sgrin nesaf yn darparu rhestr o adrannau i'w cwblhau.

Eich Manylion – Yn yr adran hon rydych chi'n mewnbynnu eich manylion fel yr atgyfeiriwr – bydd gennych hefyd yr opsiwn i ychwanegu cyswllt ychwanegol gan eich sefydliad, nid oes rhaid i chi ddarparu hyn, fodd bynnag, rydym yn cynghori'n gryf eich bod yn gwneud hynny, bydd hyn yn ein helpu i symud ymlaen gyda'r atgyfeiriad os na allwn gysylltu â chi.

Manylion personau a atgyfeiriwyd – Yma rydych chi'n dilyn cyfres o gwestiynau sy'n cynnwys enw, Dyddiad geni, rhif YG, cenedligrwydd – mae opsiwn i ddewis os nad yw unrhyw ran o'r wybodaeth yn hysbys.

Manylion cyflogaeth personau a atgyfeiriwyd – Mae hyn yn cynnwys teitl swydd, gweithio gyda phlant/oedolion, cofrestriad proffesiynol, dyddiad cyflogaeth i – o ac ati.

Rheswm dros atgyfeirio – yma bydd 3 Cwestiwn yn cael eu cyflwyno i chi,

1. Crynodeb o'r digwyddiadau sy'n arwain at yr atgyfeiriad - Yma rydych **chi'n crynhoi'r** ymddygiad / digwyddiadau honedig sy'n arwain at yr atgyfeiriad - dyma drosolwg. (Mae gennych gyfrif 255 nod i ddarparu hyn) Dylai hyn fod yr honiad neu'r ymddygiad gwirioneddol y mae'r person wedi'i wneud. e.e., *"wedi cael perthynas amhriodol gyda myfyriwr. anfon negeseuon testun amhriodol, prynu anrhegion, cwrdd yn gyfrinachol ac ati..."*
2. Manylion y digwyddiadau sy'n arwain at yr atgyfeiriad hwn - dyma lle byddwch yn darparu gwybodaeth fanylach a phenodol am y crynodeb a ddarperir yn C 1, e.e., dyddiadau pryd a ble y digwyddodd yr ymddygiad, adroddwyd i, camau a gymerwyd, cyfranogiad asiantaeth arall ac unrhyw ganlyniadau.
3. Yma gallwch ychwanegu manylion hyd at 10 digwyddiad sy'n arwain at yr atgyfeiriad hwn - (mae gan bob digwyddiad uchafswm o 190 nod - cwblhewch yn nhrefn y digwyddiadau, gan gysylltu â'ch digwyddiadau cronoleg.
   (Sylwch nad yw 10 digwyddiad yn 10 achos o niwed)

SYLWER: Pwyntiau 2 a 3 yw'r hyn a elwid yn 'cronoleg digwyddiadau', fel ym mha gamau a gymerwyd. e.e. *"adroddwyd gan riant ar ôl iddynt ddod o hyd i'r negeseuon ar ffôn y myfyriwr" "adroddwyd i'r heddlu" "ymchwiliodd yr heddlu ond penderfynodd CPS wneud dim camau"*

Manylion personau a niweidiwyd – 4 opsiwn – fel o'r blaen – ar ôl ei ddewis ni ellir newid hyn – mae'n diffinio'r cwestiynau a ofynnir wedyn yn ymwneud â naill ai unigolion neu grŵp. Yn y cwestiwn olaf o'r adran hon, cewch gyfle i ychwanegu manylion person arall sydd wedi'i niweidio os oes mwy nag un.

Gwybodaeth ychwanegol – mae pob cwestiwn yn ateb Ydw neu Nac ydw – un o'r cwestiynau yw - Ydych chi'n mynd i atgyfeirio, neu a ydych chi wedi atgyfeirio unrhyw un arall a oedd yn rhan o'r un digwyddiad? – unwaith eto mae hwn yn ydw neu nac ydw– dyma'r cyfle i gysylltu'r atgyfeiriadau – bydd angen i chi atgyfeirio pob person ar wahân o hyd.

Asiantaethau Eraill – Gwnewch yn siŵr eich bod yn darparu manylion cyswllt eraill sy'n gysylltiedig – enwau, cyfeiriadau e-bost ac ati.

Lanlwytho Dogfennau Tystiolaeth - Rhaid i chi roi cymaint a'r holl dystiolaeth berthnasol â phosibl i ni wrth gyflwyno atgyfeiriad. Rhaid i chi sicrhau bod unrhyw ddogfennau rydych chi'n eu lanlwytho yn glir, yn ddarllenadwy ac nad ydynt wedi'u gwarchod gan gyfrinair. Gallwch lanlwytho hyd at 35 ffeil yr un o 10 MB.

Adolygu a chyflwyno – mae angen i chi gwblhau pob adran i'ch galluogi i adolygu a chyflwyno eich atgyfeiriad. Mae gennych nawr yr opsiwn i lawrlwytho ac argraffu copi o'r atgyfeiriad ar gyfer eich cofnodion.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd cyfeirnod unigryw i chi – cadwch gafael ar hwn – os oes angen i chi gysylltu â DBS neu gyflwyno gwybodaeth ychwanegol sy'n dod i'r amlwg, bydd angen i chi ddefnyddio'r cyfeirnod hwn wrth gysylltu â DBS.

Cymorth pellach, canllawiau, a dolenni defnyddiol

Barring Referral Service - Submit a barring referral

I gael rhagor o gyngor a gwybodaeth am ddefnyddio'r Gwasanaeth Atgyfeirio Gwahardd, cysylltwch â dbsregionaloutreach@dbs.gov.uk

Disclosure &
Barring Service